

CYMUNED AR Y CYD - SIARTER RHWNG CYNGOR SIR Y FFLINT A CHYNGHORAU TREF A CHYMUNED Y SIR

2018

TERFYNOL (Fersiwn 7 – Mai 2018)



Cyngor Sir Y Fflint a Chynghorau Tref a Chymuned yn Gweithio mewn Partneriaeth



TUDALEN GYNNWYS

	Rhif Tudalen
PARTNERIAID Y SIARTER	3
CYFLWYNIAD	4
CYNLLUN GWEITHREDU	4
ADRAN 1: LLYWODRAETHU	5
Llywodraethu Lleol	5
Gweithio mewn Partneriaeth	6
Fforwm Sirol	7
Moeseg	7
Hyfforddiant a Chymorth	8
Etholiadau Lleol	8
Monitro ac Adolygu	9
ADRAN 2: CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU	10
Gwybodaeth	10
Ymholiadau, Pryderon a Chwynion	11
Ymgynghori ac Ymgysylltu	11
ADRAN 3: GWASANAETHAU	14
Gwasanaethau Datganoledig	14
ADRAN 4: DEFNYDD TIR A CHYNLLUNIO	16
ADRAN 5: LLESIANT A CHENEDLAETHAU'R DYFODOL	18
Cynllun Lles Sir y Fflint	18
Cynaliadwyedd	19
Amrywiaeth a Chydraddoldeb	19
Safonau'r Iaith Gymraeg	20

PARTNERIAID Y SIARTER

Rydym ni sydd wedi arwyddo isod yn datgan ein hymrwymiad i'r Siarter hon a'r egwyddorion a'r datganiadau oddi mewn iddi.

Rydym yn derbyn cyfreithlondeb a manteision gweithio mewn partneriaeth, gan gydnabod a pharchu rolau'n gilydd ar yr un pryd. Ein nod yw gweithio gyda'n gilydd fel partneriaid cyfartal yn hytrach na haenau

Rydym yn gwerthfawrogi'r angen am wybodaeth a chyfathrebu amserol, perthnasol ac amserol wrth feithrin perthnasau da a gweithio'n well gyda'n gilydd er budd pobl leol.

Mae'r Siarter yn diffinio 'Partneriaeth' fel cydweithio tuag at gyfres o amcanion cyffredin, yn seiliedig ar gydraddoldeb o ran perchnogaeth, gwneud penderfyniadau, a chydabod cyfraniad unigryw pob parti. Cydnabyddir bod partneriaeth gyfartal ac effeithiol yn dwyn buddion a chyfrifoldebau i bawb sy'n rhan ohoni. Rhaid i holl elfennau llywodraeth leol yn y sir weithio gyda'i gilydd i hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ein hardal. Os yw cyflawni pethau'n wahanol yn golygu gwell gwasanaeth, byddwn yn archwilio'r dulliau hynny o ddifrif.



Prif Weithredwr, Cyngor Sir Y Fflint

Cyngor Cymuned Argoed
Cyngor Cymuned Bagillt
Cyngor Cymuned Brychdyn a Bretton
Cyngor Cymuned Brynffordd
Cyngor Cymuned Cilcain
Cyngor Tref Cei Connah
Cyngor Tref y Fflint
Cyngor Cymuned Gwernaffield a Phantymwyn
Cyngor Cymuned Gwernymynydd
Cyngor Cymuned Helygain
Cyngor Cymuned Penarlâg
Cyngor Cymuned Higher Kinnerton
Cyngor Tref Treffynnon
Cyngor Cymuned yr Hôb
Cyngor Cymuned Coed-llai
Cyngor Cymuned Llanasa

Cyngor Cymuned Llanfynydd
Cyngor Tref yr Wyddgrug
Cyngor Cymuned Nannerch
Cyngor Cymuned Nercwys
Cyngor Cymuned Llanceurgain
Cyngor Cymuned Northop Hall
Cyngor Cymuned Pen-y-ffordd
Cyngor Cymuned Queensferry
Cyngor Tref Saltney
Cyngor Cymuned Sealand
Cyngor Tref Shotton
Cyngor Cymuned Trelawnyd a Gwaenysgor
Cyngor Cymuned Treuddyn
Cyngor Cymuned Chwitfordd
Cyngor Cymuned Ysceifiog

CYFLWYNIAD

Mae Cynghorau Tref a Chymuned Sir y Fflint a Chyngor Sir y Fflint wedi cytuno i gyhoeddi Siarter yn nodi sut byddwn yn gweithio gyda'n gilydd er lles y cymunedau lleol gan gydnabod ein cyfrifoldebau fel cyrff awtonomaidd, statudol a etholwyd yn ddemocrataidd.

Cynlluniwyd diben cyffredinol y Siarter i wella cysylltiadau rhwng pob agwedd o lywodraeth leol yn Sir y Fflint ac adeiladu ar arferion da cyfredol a manteisio ar yr egwyddorion a rennir sef bod yn agored, parchu barn ein gilydd, gonestrwydd a'n blaenoriaeth gyffredin sef democratiaeth leol a pharchu barn a dewis lleol. Mae'r Siarter hon yn seiliedig ar bartneriaeth gydradd ac nid yw'n drefniant o'r brig i lawr.

Mae 34 o Gynghorau Tref a Chymuned o fewn Sir y Fflint, a phob un yn chwarae rôl bwysig yng ngwead cymunedau lleol.

Mae'r Siarter wedi derbyn cymeradwyaeth ac ymrwymiad llawn Cyngor Sir y Fflint a'r Cynghorau Tref a Chymuned sydd wedi arwyddo'r Siarter.

Bydd y Siarter hon yn parhau i gael ei monitro a'i hadolygu mewn partneriaeth gan Gyngor Sir y Fflint a'r Cynghorau Tref a Chymuned.

Mae'n gyfnod o newid sylweddol mewn llywodraeth leol.

Mae pob Cyngor Sir yn gweld cynnydd yn y galw am wasanaethau. Yn ogystal â'r gostyngiad yng ngrant Llywodraeth Cymru a datblygiad dulliau newydd o weithio ar y cyd, fel trosglwyddiadau asedau cymunedol, mae'n gyfnod delfrydol i edrych o'r newydd ar sut gall pob agwedd o lywodraeth leol yn y sir weithio gyda'i gilydd.

CYNLLUN GWEITHREDU

Bydd Cynllun Gweithredu blynyddol yn cefnogi'r Siarter hon, gan ymdrin â phob adran unigol yn y Siarter. Bydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei ddatblygu ar y cyd ac yn priodoli cyfrifoldebau i bob partner. Bydd camau gweithredu yn cael eu priodoli i bartneriaid ynghyd ag amserlen, a bydd adrodd ar hynny o leiaf bob chwe mis yn ystod y flwyddyn berthnasol.

ADRAN 1: LLYWODRAETHU

Llywodraethu Lleol

Byddwn yn glir am y disgwyliadau sydd gennym o'n gilydd er mwyn hwyluso perthnasau gweithio da. Yn hyn o beth, byddwn yn diffinio'r modd rydym yn rhyngweithio gyda'n gilydd. Byddwn yn glir am rôl pob Cyngorydd yn y berthynas ac mewn arweinyddiaeth gymunedol.

Er mwyn bod yn effeithiol, rhaid i aelodau etholedig a swyddogion fod wedi eu hyfforddi yn dda a chael y gefnogaeth angenrheidiol er mwyn cyflawni eu dyletswyddau.

Byddwn yn annog datblygiad parhaus swyddogion ac aelodau yng Nghyngor Sir y Fflint ac yn y Cyngorau Tref a Chymuned, un ai yn eu grwpiau unigol neu gyda'i gilydd. Bydd gwell arbenigedd yn cefnogi cydweithio mwy effeithiol.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn:-	Bydd Cyngorau Tref a Chymuned yn:-
Penodi aelod enwebedig o staff i fod yn swyddog cyswllt rhwng Cyngor Sir Y Fflint a'r Cyngorau Tref a Chymuned.	Cysylltu â'r swyddog enwebedig ar y materion perthnasol gan roi gwybod iddynt am unrhyw broblemau.
Galw cyfarfodydd pan fydd angen cyfranogiad y Cyngorau Tref a Chymuned, a lle bo'n ymarferol eu cynnal fin nos.	Rhoi dyddiadau ac amlder cyfarfodydd Cyngorau Tref a Chymuned i'r Cyngor Sir ac osgoi cynnal cyfarfodydd ar yr un pryd os yn bosib. Gwahodd Cyngorwyr / Swyddogion (fel bo'n briodol) Cyngor Sir y Fflint i gyfarfodydd, a ble bo'n addas rhoi lle i gyflwyniadau ar raglen y cyfarfodydd.

Gweithio mewn Partneriaeth

Mae'r Siarter yn diffinio 'Partneriaeth' fel cydweithio tuag at gyfres o amcanion cyffredin, yn seiliedig ar gydraddoldeb o ran perchnogaeth, gwneud penderfyniadau, a chydabod cyfraniad unigryw pob parti. Cydnabyddir bod partneriaeth gyfartal ac effeithiol yn dwyn buddion a chyfrifoldebau i bawb sy'n rhan ohoni. Rhaid i holl elfennau Llywodraeth leol weithio gyda'i gilydd i hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, a diwylliannol ein hardal. Os yw cyflawni pethau'n wahanol yn golygu gwell gwasanaeth, byddwn yn archwilio'r dulliau hynny o ddifrif.

Rydym yn derbyn cyfreithlondeb a manteision gweithio mewn partneriaeth, gan gydnabod a pharchu rolau'n gilydd ar yr un pryd. Ein nod yw gweithio gyda'n gilydd fel partneriaid cyfartal yn hytrach na haenau.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn:-	Bydd Cyngorau Tref a Chymuned yn:-
Cydnabod mai Cyngorau Tref a Chymuned yw'r lefel fwyaf lleol o lywodraeth leol. Yn eu rôl fel cyrff sy'n atebol yn ddemocrataidd, mae Cyngorau Tref a Chymuned yn cynnig modd o ymgysylltu gyda phobl leol, o ddatganoli a chynnal darpariaeth gwasanaethau penodol, ac o adfywio cymunedau lleol.	Cydnabod pwysigrwydd strategol y Cyngor Sir ac arbedion maint a dyraniad ecwitiol sawl gwasanaeth y gallant eu cyflawni.
Cydnabod a pharchu amrywiaeth Cyngorau Tref a Chymuned a bod eu hanghenion yn amrywio yn ddibynnol ar eu maint, a bod amrywiaeth o ran faint maent yn gyfranogi.	Cydnabod bod ganddynt rôl bwysig i'w chwarae o ran arwain yn gymunedol yn y Sir.
Trafod gyda Chynghorau Tref a Cymuned beth yw'r ffordd orau iddynt gyfrannu at berchnogi ac / neu weithredu partneriaethau lleol allweddol.	Datblygu partneriaethau lleol i gynnal neu wella gwasanaethau lle bo'n briodol.
	Cyfrannu'n gadarnhaol at bartneriaethau lleol.
Fel arweinydd a chydlynedd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint, gwahodd cynrychiolydd i fod yn aelod o'r Bwrdd i gynrychioli sector y Cyngorau Tref a Chymuned.	Enwebu cynrychiolydd i fod yn aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Y cynrychiolydd i ddilyn a chefnogi'r rolau a'r cyfrifoldeb cysylltiedig.
Ceisio gweithio'n gadarnhaol gyda Chynghorau Tref a Chymuned ar faterion fel ardaloedd adnewyddu, cynllunio Canol Tref, Cymunedau yn Gyntaf ac yn y blaen, a thrafod meysydd eraill lle gallai datblygu mwy o drefniadau cydweithio fod o fantais i bawb. C	Gweithio'n gadarnhaol gyda'r Cyngor Sir i wneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer cydweithio yn y dyfodol.

Fforwm Sirol

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn:-	Bydd Cyngorau Tref a Chymuned yn:-
Cynnal cyfarfodydd Fforwm Sirol gyda chynrychiolwyr yr holl Gyngorau Tref a Chymuned sydd am gymryd rhan. Cynhelir y cyfarfodydd hyn 3 gwaith y flwyddyn.	Cyfrannu tuag at raglen cyfarfodydd y Fforwm Sirol gyda materion cyffredin a chyfrannu at bresenoldeb a thrafodaeth.
Sicrhau bod Cyngorau Tref a Chymuned yn gwybod am gyfarfodydd y Fforwm Sirol mewn digon o amser, gan roi amser iddynt gyflwyno unrhyw faterion i'r rhaglen.	Sicrhau bod Cyngorau Tref a Chymuned yn cael eu cynrychioli yng nghyfarfodydd y Fforwm Sirol. Dylai Cyngorau Tref a Chymuned fynychu dau gyfarfod y flwyddyn o leiaf.
Rhoi cyfleoedd i Glercod Cyngorau Tref a Chymuned gwrrd i drafod materion cyffredin a datrys problemau sy'n cynnwys Cyngor Sir Y Fflint yn uniongyrchol.	Annog Clercod i gymryd rhan mewn cyfleoedd i rwydweithio a rhannu pryderon cyffredin.

Moeseq

Byddwn yn darparu gwasanaeth moeseqol i bobl leol, gan ddilyn y Safonau a Chodau Ymddygiad priodol. Byddwn yn annog cysylltiadau rhwng Clercod Cyngorau Tref a Chymuned a Phwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn:-	Bydd Cyngorau Tref a Chymuned yn:-
Drwy'r Swyddog Monitro penodedig, cefnogi'r Cyngorau Tref a Chymuned wrth ystyried a darparu cymorth amserol o safbwynt rhoi Cod Ymddygiad yr Aelodau ar waith.	Sicrhau bod Cyngorwyr Tref a Chymuned yn cael eu cynghori i beidio gwneud cwynion blinderus o dan y cod ymddygiad, ac yn darparu'r holl wybodaeth y mae'r Swyddog Monitro yn holi amdano.
Sicrhau bod aelodau'r Cyngor Sir yn ymwybodol o'r angen i gadw at y Cod Ymddygiad.	Sicrhau bod yr aelodau'n ymwybodol o'r angen i gadw at y Rheolau Sefydlog a'r Cod Ymddygiad.
Darparu dau sesiwn hyfforddi bob blwyddyn ar y Cod Ymarfer.	Cefnogi hyfforddiant Cod Ymddygiad drwy ddarparu lleoliad ar gyfer sesiynau, hyrwyddo digwyddiadau o'r fath i'w haelodau ac annog Cyngorwyr i fynychu hyfforddiant.

Hyfforddiant a Chymorth

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn:-	Bydd Cynghorau Tref a Chymuned yn:-
Cynnig hyfforddiant cynefino aelodau i Gynghorwyr Tref a Chymuned er mwyn eu galluogi i ddeall rôl a swyddogaeth y Cyngor Sir.	Darparu hyfforddiant cynefino i'r Cynghorwyr sydd newydd eu hethol er mwyn eu galluogi i gyflawni eu rôl yn effeithiol.
Darparu hyfforddiant aelodau perthnasol i Gynghorau Tref a Chymuned.	Darparu'r ddogfennaeth a hyfforddiant perthnasol i Gynghorwyr newydd er mwyn iddynt gyflawni eu rôl e.e. Canllaw i Gynghorwyr Da (cyhoeddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru), y Cod Ymddygiad a Rheolau Sefydlog.

Etholiadau Lleol

Mae etholiadau teg ac agored yn hanfodol i ddemocratiaeth leol. Byddwn yn sicrhau bod etholiadau'n cael eu cystadlu yn rhydd ac yn deg, ac yn annog pobl leol i fod yn rhan o ddemocratiaeth leol.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn:-	Bydd Cynghorau Tref a Chymuned yn:-
Gweinyddu etholiadau Cynghorau Tref a Chymuned.	Nodi'r angen ar gyfer etholiadau'n amserol.
Sicrhau bod Cynghorau Tref a Chymuned yn rhan o'r broses cynllunio etholiadau lleol.	Annog aelodau o'r gymuned leol i gymryd rhan yn y broses etholiadau lleol.
Sicrhau bod Cynghorau Tref a Chymuned yn cymryd rhan mewn unrhyw waith hyrwyddo / codi ymwybyddiaeth er mwyn annog enwebiadau ar gyfer etholiadau lleol.	Hyrwyddo swyddi gwag ar Gynghorau Tref a Chymuned yn ddigonol er mwyn sicrhau digon o gynrychiolaeth gymunedol.
Helpu i hyrwyddo etholiadau lleol ar ran y Cynghorau Tref a Chymuned.	Rhoi'r wybodaeth berthnasol i Gyngor Sir y Fflint i hyrwyddo unrhyw etholiadau ar eu rhan.
Briffio Clercod y Cynghorau Tref a Chymuned ar y broses enwebu fel eu bod yn gallu cynorthwyo unrhyw ymgeiswyr posibl sy'n dod ymlaen ar gyfer etholiadau lleol.	Cynorthwyo ymgeiswyr posibl sy'n dod ymlaen ar gyfer etholiadau lleol gyda'r wybodaeth berthnasol.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn:-	Bydd Cyngorau Tref a Chymuned yn:-
Darparu cymorth gyda gweithdrefnau a phrosesau gweinyddol a chyfreithiol etholiadau lleol.	

Monitro ac Adolygu

Bydd y Siarter yn ddogfen fyw ac yn cael ei hadolygu'n flynyddol, neu'n fwy aml os oes angen gwneud hynny.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn:-	Bydd Cyngorau Tref a Chymuned yn:-
Trefnu bod y Siarter yn cael ei hadolygu'n flynyddol.	Cyfrannu'n weithredol at adolygiad y Siarter.
Mewn partneriaeth â'r Cyngorau Tref a Chymuned, datblygu cynllun gweithredu blynyddol i'w ddarparu ar y cyd.	Cyfrannu tuag at ddatblygu a chyflawni cynllun gweithredu'r Siarter.

ADRAN 2: CYFATHREBU AC YMGYSYLLTU

Gwybodaeth

Rydym yn gwerthfawrogi'r angen am wybodaeth a chyfathrebu amserol, perthnasol a chlir wrth feithrin perthnasau da a gweithio'n well gyda'n gilydd er budd pobl leol.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn:-	Bydd Cyngorau Tref a Chymuned yn:-
Rhoi rhestr o enwau cysylltiadau, rhifau ffôn a chyfeiriadau e-bost i'r Cyngorau Tref a Chymuned ar gyfer gwasanaethau allweddol o fewn Cyngor Sir y Fflint.	Defnyddio'r pwyntiau cyswllt ac ymateb yn y ffordd fwyaf priodol ac amserol.
Cydnabod yr holl ohebiaeth ysgrifenedig gan Gyngorau Tref a Chymuned (gan gynnwys llythyrau a negeseuon e-bost) o fewn 5 diwrnod gwaith. Darparu ymateb o sylwedd i'r holl ohebiaeth ysgrifenedig o fewn deg diwrnod gwaith os nad yw amgylchiadau'n golygu na ellir bodloni'r amserlen hon. Yn yr achos hwn bydd Cyngor Sir Y Fflint yn darparu cydnabyddiaeth o'r ohebiaeth ysgrifenedig o fewn pum niwrnod gwaith, bydd y gydnabyddiaeth yn cynnwys amserlen arfaethedig ar gyfer ymateb o sylwedd.	Sicrhau fod mynediad gan yr holl Gyngorwyr Tref a Chymuned at y ffrydiau addas o gyfathrebu.
Darparu data ystadegol a data arall i Gyngorau Tref a Chymuned fel bo'r angen.	Hysbysu'r Cyngor Sir wrth gyflawni prosesau cynllunio a arweinir gan y gymuned fel Cynlluniau Tref / Cymuned a chynnwys y Cyngor Sir pan fo angen.
Rhoi gwybod i Gyngorau Tref a Chymuned o unrhyw gamau a gymerwyd o fewn eu hardaloedd fel cau ffyrdd, gwaith cynnal a chadw ac ati.	Rhannu'r wybodaeth hon o fewn eu cymunedau.

Ymholiadau, Pryderon a Chwynion

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn:-	Bydd Cyngorau Tref a Chymuned yn:-
Wedi cael gwybod am faterion, cydnabod eu bod wedi derbyn ymholiad / cwyn, ymchwilio i'r mater yn unol â'r Weithdrefn / Polisi Canmoliaeth, Sylwadau a Chwynion, a rhoi adborth i'r Cyngorau Tref a Chymuned – 10 diwrnod gwaith ar gyfer Cwynion Cam 1, a 20 diwrnod gwaith ar gyfer y cwynion Cam 2.	Ble bo'n briodol, dilyn / defnyddio gweithdrefn a Pholisi "Canmoliaeth, Sylwadau a Chwynion" Cyngor Sir y Fflint.
	Cysylltu â'r Swyddog enwebedig am gymorth pellach pan na fydd y Polisi yn cael ei lynu ato.
Ymateb i adroddiadau lle mae angen ymateb yn adferol i ddarpariaeth gwasanaeth.	Rhoi gwybod i'r Cyngor Sir pan fydd angen gweithredu ar frys er enghraifft pan fydd coed wedi cwmpo neu yn beryglus, goleuadau traffig ddim yn gweithio, llifogydd ar ffyrdd, tyllau mewn ffyrdd, cerrig llawr a phalmentydd rhydd neu anwastad a bolardiau wedi cwmpo a pholion lamp anniogel neu bolion wedi cwmpo.

Ymgynghori ac Ymgysylltu

Rydym yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ymgynghori ystyrlon ac yn gosod ymrwymiad gwirioneddol gan bob parti i ymgynghori ar faterion cyffredin o bryder.

Rydym yn cydnabod yr angen i ymgysylltu â phobl leol am y pethau sy'n bwysig iddynt, i hel eu barn, ac i sicrhau bod eu hadborth yn cael ei adrodd yn gywir ac yn cael ei ystyried ar yr adeg briodol yn ystod y prosesau gwneud penderfyniadau.

Byddwn yn cytuno ar weithdrefnau a phrosesau clir, penodol, a gynhelir o fewn cyfnod cyfyngedig o amser, ar gyfer ymgynghori.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn:-	Bydd Cyngorau Tref a Chymuned yn:-
<p>Rhoi'r cyfle i Gyngorau Tref a Chymuned wneud sylwadau ar ymgynghoriadau cyn gwneud penderfyniad syn effeithio'r gymuned leol.</p>	<p>Ymateb i gyfleoedd ymgynghori yn amserol, gan fynd i'r afael â'r materion allweddol yn y ddogfen ymgynghori.</p> <p>Gweithredu fel canolwyr, gan gymryd camau lle bo'n bosib i ymgysylltu ac ymgynghori â phobl leol ar y materion sy'n bwysig iddynt, ac ymgorffori'r farn a gasglwyd i'r ymatebion terfynol i'r ymgynghoriad.</p> <p>Cynorthwyo i hyrwyddo ymgynghoriadau agored i bobl leol, gan ddarparu cyddestun ar gyfer sut gallai'r mater effeithio eu cymuned, ac annog pobl i ymgysylltu trwy ddangos iddynt lle gallant roi eu barn.</p>
<p>Bydd Cyngor Sir Y Fflint, ar ddechrau pob blwyddyn y cyngor, yn rhoi dolen i Glercod i'w gwefan sy'n cynnwys dyddiadau ei holl gyfarfodydd cyhoeddus. Bydd Rhaglenni ac Adroddiadau ar gyfer cyfarfodydd y presennol a'r gorffennol hefyd ar gael drwy'r ddolen.</p>	<p>Gwneud defnydd llawn o hen bapurau a phapurau'r presennol wrth ystyried sut i ymateb i ymgynghoriadau ar faterion sy'n effeithio eu cymuned leol a hysbysu eu prosesau gwneud penderfyniadau lleol.</p>
<p>Sicrhau bod Swyddogion ar gael i fynychu cyfarfodydd gyda Chynghorau Tref a Chymuned (neu grwpiau o Gyngorau) ar amser a gytunwyd gan bawb i drafod materion cyffredin pan fydd gofyn gwneud hynny a rhoi digon o rybudd (isafswm o 3 wythnos os nad yw'n fater brys).</p>	<p>Rhoi cyfle i Gyngorwyr a Swyddogion Sir y Fflint i siarad mewn cyfarfodydd Cyngorau Tref a Chymuned ar faterion sydd o ddiddordeb cyffredin.</p> <p>Ble bo'n briodol, hyrwyddo'r cyfarfodydd hyn yn agored i drigolion y gymuned a hwyluso eu cyfraniad i'r drafodaeth.</p>
<p>Caniatáu digon o amser i Gyngorau Tref a Chymuned drafod ac ymateb i ymgynghoriadau, cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio cymunedau lleol.</p>	<p>Cyhoeddi, ar eu gwefan, ddyddiadau eu cyfarfodydd ar gyfer blwyddyn y cyngor, er mwyn cynorthwyo'r Cyngor Sir, ble bo'n bosib, i gynllunio eu gwahoddiadau am ymatebion i ymgynghoriadau yn well.</p> <p>Ymateb i ymgynghoriadau'r Cyngor Sir ar gynllunio a materion eraill o fewn yr amser cyfyngedig a nodir yn yr ymgynghoriad.</p>

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn:-	Bydd Cyngorau Tref a Chymuned yn:-
Gwahodd Cyngorau Tref a Chymuned i fynychu digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned a fforymau rhanddeiliaid.	Mynychu digwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned ac / neu fforymau rhanddeiliad ble bo'n bosib. Cynorthwyo'r Cyngor Sir i hyrwyddo cyfleoedd ymgysylltu â'r gymuned i annog ac ehangu cyfranogiad lleol.
Adrodd yn gywir ar farn y Cyngorau Tref a Chymuned wrth y Cyngorwyr sy'n gwneud penderfyniadau.	Hysbysu'r Cyngor Sir am faterion sy'n berthnasol i'r gymuned leol.
Cyhoeddi canlyniadau ei weithgareddau ymgynghori ac / neu ymgysylltu ar ei wefan yn unol â'r amserlenni a nodir yn nogfennaeth yr ymgynghoriad.	Cael mynediad at ganlyniadau ymgynghoriadau a chynorthwyo i hyrwyddo'r ffaith eu bod ar gael i'r gymuned leol.
Bydd cyfryngau electronig yn cael eu defnyddio i ymgynghori tra gellir gwneud copïau caled ar gais.	Annog Cyngorau Tref a Chymuned i ddefnyddio mwy o'r cyfryngau electronig o safbwynt ymgynghori.
Ble bo'n bosib, helpu Cyngorau Tref a Chymuned i hyrwyddo materion o ddiddordeb lleol ar ei wefan a sianeli cyfryngau cymdeithasol eraill.	Ble bo'n briodol, rhoi gwybod i'r Cyngor Sir am faterion o ddiddordeb lleol y gellir eu hyrwyddo ar wefan Cyngor Sir Y Fflint neu sianel cyfryngau cymdeithasol eraill.
Annog Cyngorau Tref a Chymuned i gyflwyno eitemau priodol i'w trafod ym Mhwyllgorau Craffu priodol y Cyngor Sir.	Ymateb i geisiadau i fewnbynnu barn / eitemau ar Bwyllgorau Craffu.

ADRAN 3: GWASANAETHAU

Gwasanaethau Datganoledig

Dylid darparu gwasanaethau yn y dull mwyaf priodol, o safbwynt gwerth am arian a gwerth ychwanegol i bobl leol.

Rydym yn cydnabod bod gwahanol haenau o lywodraethu yn fwy addas ar gyfer rhai gwasanaethau a byddwn yn annog a chefnogi datganoli i Gyngorau Tref a Chymuned ble bo'n briodol.

Er mwyn cefnogi datganoli gwasanaethau mae Cyngor Sir y Fflint a'r Gyngorau Tref a Chymuned yn cydnabod yr angen am eglurder a thryloywder mewn trefniadau ariannol. Wrth ddatblygu a gweithredu trefniadau ariannol, bydd blaenoriaethau cenedlaethol a lleol perthnasol yn cael eu hystyried.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn:-	Bydd Gyngorau Tref a Chymuned yn:-
Ystyried yn ddwys yr holl achosion a ddadleuir yn rhesymol ar gyfer dirprwyo darpariaeth gwasanaeth i'r Gyngorau Tref a Chymuned, gan seilio'i ystyriaeth yn bennaf ar gynnal neu wella darpariaeth gwasanaeth i drigolion gan sicrhau ar yr un pryd bod gwerth am arian yn cael ei gynnal neu ei wella.	Ystyried a allai unrhyw wasanaethau lleol sydd ar hyn o bryd yn cael eu darparu gan Gyngor Sir y Fflint neu ei bartneriaid, gael eu darparu yn fwy addas / effeithiol gan Gyngorau Tref a Chymuned.
Lle nad yw'n addas neu'n ddymunol dirprwyo darpariaeth gwasanaeth, ceisio darganfod ffyrdd y gallai gwybodaeth gan gymunedau gael ei ddefnyddio i wella darpariaeth gwasanaeth i fodloni anghenion trigolion yn well.	Ymgysylltu gyda chymunedau perthnasol i ddeall eu hanghenion yn well a chyfleu'r rhain mewn modd dealladwy ac adeiladol i'r Cyngor er mwyn hysbysu'r broses o gynllunio a darparu gwasanaeth.
Bod yn glir ynglŷn â sut gellir trafod a chytuno ar wasanaethau wedi eu datganoli.	Defnyddio'r gweithdrefnau a gytunwyd arnynt os oes dymuniad i symud y gwasanaethau a ddatganolwyd ymlaen.
Ymgynghori a thrafod gyda Chyngorau Tref a Chymuned wrth ystyried datganoli gwasanaetha; er mwyn cynnal gwasanaethau, i ddarparu gwell gwerth am arian ac / neu well gwasanaethau. Gallai'r rhain gynnwys Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol neu fodelau darparu amgen.	Bod yn glir am sut gallai datganoli unrhyw wasanaethau gynnal gwasanaethau ar gyfer y dyfodol, gan ddarparu gwell gwerth am arian ac / neu well gwasanaethau.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn:-	Bydd Cynghorau Tref a Chymuned yn:-
Sicrhau atebolrwydd ar gyfer pob gweithgaredd a gafaelwyd neu a ddatganolwyd.	Cymryd cyfrifoldeb dros agweddau o gydweithredu y maent wedi ymrwymo iddynt.
Cefnogi trosglwyddiad gwasanaethau a ddatganolwyd.	Mewn partneriaeth gyda'r Cyngor Sir, nodi meysydd lle mae angen cymorth.
Wrth osod y lefel o dreth cyngor ar gyfer yr ardal, rhoi sylw i wasanaethau sy'n cael eu darparu gan y Cynghorau Tref a Chymuned yn yr ardal hon, a sut cânt eu cyllido. Bydd hyn er mwyn osgoi trethu ddwywaith ble bo'n bosib.	Wrth osod y praesept blynyddol, rhoi sylw i gynlluniau Cyngor Sir y Fflint a'r Cynghorau Tref a Chymuned o ran darparu gwasanaethau am y flwyddyn sydd i ddod.
Lle mae darpariaeth gwasanaeth wedi ei ddatganoli neu ei drosglwyddo i Gyngor Tref neu Gymuned, sicrhau cytundeb ar unrhyw lefel o gyllido rhwng Cyngor Sir y Fflint a'r Cyngor Tref neu Gymuned perthnasol fel rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth priodol.	Cyn datganoli unrhyw wasanaeth i Gyngor Tref neu Gymuned, cytuno ar y lefel o gyllid sydd i'w drosglwyddo.
Lle mae capasiti yn caniatáu, cynnig mynediad i Gynghorau Tref a Chymuned at wasanaethau cefnogi, i'w galluogi i gymryd mantais o adnoddau fel ffotocopiö, TG a phrynu ar bris a gytunwyd gan bob parti.	Dilyn gweithdrefnau a osodwyd i gael mynediad at wasanaethau cymorth Cyngor Sir Y Fflint, ond cael cyfle i wneud eu trefniadau eu hunain hefyd.

ADRAN 4: DEFNYDD TIR A CHYNLLUNIO

Mae Cyngorau Tref a Chymuned yn adnabod ac yn deall eu hardaloedd lleol a rhaid iddynt allu gwneud sylwadau yn effeithiol ar faterion cynllunio. Gall Cyngor Sir Y Fflint gymryd trosolwg o anghenion yr ardal leol gyfan a gwneud penderfyniadau, gan ystyried barn leol ar yr un pryd.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn:-	Bydd Cyngorau Tref a Chymuned yn:-
Cydydffurfio â'r gweithdrefnau cynllunio a gytunwyd arnynt.	Cydydffurfio â'r gweithdrefnau cynllunio a gytunwyd arnynt.
Cynnal ei ddyletswydd statudol i ymgynghori â Chynghorau Tref a Chymuned ar bob cais cynllunio yn eu cymunedau.	Gwneud ymatebion priodol i Gyngor Sir y Fflint yn cydnabod y paramedrau a orfodir gan gyfraith cynllunio a pholisïau cynllunio a gytunwyd arnynt.
Hysbysu Cyngorau Tref a Chymuned yn ysgrifenedig o benderfyniadau a gyhoeddwyd o safbwynt unrhyw geisiadau cynllunio yn eu hardal a'i gwneud yn hawdd iddynt weld beth yw'r rhesymau y tu ôl i'r penderfyniadau.	Sicrhau bod Cyngorwyr yn derbyn hyfforddiant ar faterion cynllunio gan Swyddogion / cyrff perthnasol a bod â dealltwriaeth gref o sut mae cyfraith cynllunio yn gweithio.
Rhoi gwybodaeth i'r Cyngorau Tref a Chymuned am gyfarfodydd Pwyllgor Cynllunio perthnasol fel y gallant fynychu fel sylwedyddion neu gyfranogwyr yn unol â Chynrychiolaeth Trydydd Parti mewn Protocol Pwyllgor Cynllunio.	Manteisio ar y cyfle i fynychu cyfarfodydd Pwyllgor Cynllunio er mwyn gwneud sylwadau ar Geisiadau os oes ganddynt ddiddordeb ynddynt.
Pan fydd ymgynghori ffurfiol wedi ei wneud â Chyngor Tref neu Gymuned ar fater cynllunio, ceisio eu hysbysu o ganlyniad y penderfyniad a'i gwneud yn hawdd iddynt weld beth yw'r rhesymau y tu ôl i'r penderfyniad; yn ddibynnol ar gadarnhad o fewn Llawlyfr Rheoli Datblygu Gweithdrefnau Gwasanaethau.	Darparu manylion cyswllt cyfredol y Clerc i'r Cyngor Sir.
Gwahodd Cyngorau Tref a Chymuned i unrhyw Gyfarfodydd Grwpiau Ffocws Defnyddwyr Cynllunio perthnasol, a defnyddio'r cyfarfodydd hyn ar gyfer hyfforddi ar faterion cynllunio perthnasol.	Annog cyfranogiad yn y Cyfarfodydd Grwpiau Ffocws Defnyddwyr Cynllunio.
Cynnal y lefelau o drafodaethau gyda Chynghorau Tref a Chymuned ar sut gallant gyfrannu orau at ddatblygu a darparu'r Cynllun Datblygu Lleol yn effeithiol.	Ceisio cyfrannu'n llawn at ddatblygu a darparu Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Y Fflint yn effeithiol.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn:-	Bydd Cyngorau Tref a Chymuned yn:-
Lle bo'n ymarferol, cefnogi Cyngorau Tref a Chymuned i ddatblygu Cynlluniau Cymunedol.	Gwahodd cefnogaeth Cyngor Sir Y Fflint i ddatblygu Cynlluniau Cymunedol ble bo'r angen.
Parhau i ddarparu copïau caled o geisiadau cynllunio i Gyngorau Tref a Chymuned ar gais.	Sicrhau bod copïau o geisiadau cynllunio ar gael i Gyngorwyr Cymuned ar gais.

ADRAN 5: LLESIANT A CHENEDLAETHAU'R DYFODOL

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddeddfwriaeth newydd heriol a hyrwyddir gan Lywodraeth Cymru. Ei nod yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru nawr ac yn y tymor hir.

Yn seiliedig i'r Ddeddf mae saith nod 'llesiant' a pum ffordd o weithio a elwir yn egwyddorion datblygu cynaliadwy.

Mae Cynghorau Tref a Chymuned sydd ag incwm gros neu wariant o £200,000 o leiaf, am bob un o'r tair blynedd ariannol cyn y flwyddyn pan gyhoeddir y Cynllun Lles, yn ddarostyngedig i'w rhannau penodol eu hunain o'r ddeddfwriaeth hon.

Cynllun Lles Sir y Fflint

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd strategol y Cynllun Lles fel gweledigaeth trosfwaol cyrff partneriaeth y Sir. Mae'r Cynllun Lles a'i effeithiolrwydd yn cael ei hysbysu gan brofiadau ar lefel lleol o fewn ein cymunedau yn ogystal â gwybodaeth ein partneriaid. Er mwyn cefnogi'r dystiolaeth yn y Cynllun Lles mae Aseiad Lles wedi ei roi at ei gilydd a fydd yn cael ei adolygu o dro i dro.

Mae'r Cynllun Lles yn cefnogi'r nodau lles ac egwyddorion datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a bydd yn arddangos sut mae Sir y Fflint fel Sir o bartneriaid yn cyfrannu tuag atynt.

Mae **Cynllun Cyngor** y Cyngor ei hun yn cyd-fynd gyda'r Cynllun Lles. Mae'n cynnwys y themâu a'r blaenoriaethau y bydd y Cyngor yn eu darparu yn ystod y flwyddyn er mwyn cefnogi'r blaenoriaethau'r Cynllun Lles.

Mae cynhyrchu a darparu'r Cynllun Lles yn un o rolau craidd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Caiff Cynghorau Tref a Chymuned eu cynrychioli ar y bwrdd (Adran Gweithio mewn Partneriaeth, tudalen 6).

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn:-	Bydd Cynghorau Tref a Chymuned yn:-
Trafod gyda Chynghorau Tref a Chymuned sut gallant gyfrannu orau at ddatblygu a darparu Cynllun Lles Sir y Fflint yn effeithiol.	Cyfrannu tuag at ddatblygu a darparu Cynllun Lles Sir y Fflint yn effeithiol.
Trafod gyda Chynghorau Tref a Chymuned sut gallant gyfrannu orau at ddatblygu a darparu Cynllun y Cyngor yn effeithiol.	Cyfrannu tuag at ddatblygu a darparu Cynllun y Cyngor yn effeithiol.
Cynnwys y Cynghorau Tref a Chymuned mewn unrhyw ymgynghoriad er mwyn hysbysu'r Aseiad Lles a'r Cynllun.	Ymateb yn llawn i unrhyw ymgynghoriad a wneir ynglŷn â'r Aseiad Lles a'r Cynllun.

Cynaliadwyedd

Byddwn yn gweithio mewn ffyrdd sy'n gynaliadwy, gan gysoni'r anghenion hir dymor gydag anghenion presennol a gwarchod a gwella safon bywyd cenedlaethau presennol heb gyfaddawdu safon byw cenedlaethau'r dyfodol.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn:-	Bydd Chynghorau Tref a Chymuned yn:-
Cynorthwyo Chynghorau Tref a Chymuned gyda gwybodaeth ar arferion cynaliadwy.	Asesu cynaliadwyedd arferion a phrosesau cyfredol.
Amlinellu sut mae'r Cyngor yn gweithredu datblygiad cynaliadwy.	Annog prosiectau sy'n cyfrannu tuag at gynaliadwyedd sy'n fanteision i'r gymuned.
Gweithio mewn partneriaeth gyda Chynghorau Tref a Chymuned er mwyn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol er budd cymunedau lleol, heb gyfaddawdu safon bywyd cenedlaethau'r dyfodol.	Gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Sir y Fflint er mwyn hyrwyddo datblygiad cynaliadwy cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol er budd cymunedau lleol, heb gyfaddawdu safon bywyd cenedlaethau'r dyfodol.

Amrywiaeth a Chydraddoldeb

Mae Cyngor Sir Y Fflint a Chynghorau Tref a Chymuned y sir yn benderfynol o ddileu pob math o wahaniaethu, a hyrwyddo cyfle cyfartal. Mae Amrywiaeth a Chydraddoldeb wrth galon popeth yr ydym yn ei wneud ac mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau fod gan bawb fynediad cyfartal i'n gwasanaethau.

Rydym yn sylweddoli fod gennym rôl bwysig i'w chwarae er mwyn sicrhau fod pob aelod o'n cymunedau yn cael rhoi eu barn ar ein dyfodol.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn:-	Bydd Chynghorau Tref a Chymuned yn:-
Bodloni anghenion penodol aelodau unigol o'r Fforwm Sirol o safbwynt trefniadau cyfarfod er mwyn sicrhau y gall pawb sy'n mynychu gyfrannu'n llawn.	Nodi unrhyw anghenion penodol sydd gan aelodau a rhoi gwybod i Gyngor Sir y Fflint am unrhyw anghenion penodol fel darparu dogfennau mewn print bras, Braille ac ati.
	Darparu lleoliadau cyfarfodydd hygyrch.
Bod yn glir am ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 wrth weithio mewn partneriaeth gyda Chynghorau Tref a Chymuned i ddarparu gwasanaethau.	Cydymffurfio gyda Deddf Cydraddoldeb 2010, lle mae'r Cyngor a Chynghorau Tref a Chymuned yn darparu gwasanaethau ar y cyd neu'n gweithio mewn partneriaeth.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn:-	Bydd Cyngorau Tref a Chymuned yn:-
Cynorthwyo Cyngorau Tref a Chymuned gyda gwybodaeth ar wasanaethau cynhwysol.	Asesu i ba raddau mae eu harferion cyfredol yn hyrwyddo cydraddoldeb.
Gweithio mewn partneriaeth gyda Chynghorau Tref a Chymuned i ddathlu amrywiaeth ac i hyrwyddo Sir y Fflint fel sir lle na chaniateir gwahaniaethu ac aflonyddu.	Lle bo'n bosib, annog prosiectau a mentrau sy'n dathlu amrywiaeth a chynhwysiant.

Safonau'r Iaith Gymraeg

Byddwn yn gweithio mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac yn hwyluso defnydd ohoni, ac yn sicrhau nad ydym yn trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn:-	Bydd Cyngorau Tref a Chymuned yn:-
Trafod gyda'r Cyngorau Tref a Chymuned sut gallwn nodi a defnyddio dewis iaith aelodau unigol yn y Fforwm Sirol o safbwynt trefniadau cyfarfodydd.	Nodi dewis iaith unigolion sy'n mynychu cyfarfodydd y Fforwm Sirol, a rhoi gwybod i'r Cyngor Sir am y dewis hwnnw.
Cynorthwyo Cyngorau Tref a Chymuned gyda gwybodaeth ar arferion dwyieithog.	Asesu i ba raddau y mae eu harferion cyfredol yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i chynaliadwyedd.
Gweithio mewn partneriaeth gyda Chynghorau Tref a Chymuned i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r iaith er budd cymunedau lleol a chenedlaethau'r dyfodol.	Ble bo'n ymarferol, annog prosiectau / mentrau sy'n cyfrannu at gynyddu faint o Gymraeg sy'n cael ei gweld a'i chlywed yn y sir.
Gweithio mewn partneriaeth gyda Chynghorau Tref a Chymuned i ddathlu diwylliant Cymru.	Ble bo'n ymarferol, cymryd rhan mewn mentrau i ddathlu diwylliant Cymru, er enghraifft Dydd Gŵyl Ddewi.
Bod yn glir am ofynion Safonau'r Iaith Gymraeg y bydd angen i Gyngor Sir y Fflint gydymffurfio â nhw pan fyddant yn darparu gwasanaethau ar y cyd â'r Cyngorau Tref a Chymuned.	Cydymffurfio gyda Safonau'r Iaith Gymraeg lle mae'r Cyngor a'r Cyngorau Tref a Chymuned yn cyd-ddarparu gwasanaethau, a sicrhau nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg.